Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG-0732-22

Elin Jones AS
Llywydd

Llywydd@senedd.cymru

27 Mehefin 2022

Annwyl Elin

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Tramor, yr Anrh. Liz Truss AS, y Bil Protocol Gogledd Iwerddon (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Mehefin.

O'n dadansoddiad cychwynnol, mae'r Bil yn cyffwrdd â meysydd cymhwysedd datganoledig. Mewn llythyr ataf ar 13 Mehefin, mae'r Ysgrifennydd Tramor yn cadarnhau bod Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad y Senedd i'r Bil ac yn gofyn a fyddai Gweinidogion Cymru yn cytuno mewn egwyddor i gefnogi Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, o ystyried absenoldeb llwyr ymgysylltu ystyrlon gan Lywodraeth y DU cyn ei gyflwyno a chymhlethdod y materion a godir yn y Bill, nid yw wedi bod yn bosibl eto i ystyried yn iawn ganlyniadau'r hyn a gynigir, o ran datganoli

Yn ogystal, mae gennyf bryderon mawr y gallai'r Bil dorri rhwymedigaethau rhyngwladol, ac mae angen dadansoddiad pellach i lywio ein safbwynt. Mewn datganiad sy'n amlinellu safbwynt cyfreithiol Llywodraeth y DU mae'n mynnu bod y Bil yn gyson â chyfraith ryngwladol. Tra bod Llywodraeth y DU yn derbyn y byddai'r Bil, pan ddaw i rym, yn ymwneud â methu cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, mae Llywodraeth y DU yn cyfiawnhau hyn ar sail yr athrawiaeth 'rheidrwydd' o dan gyfraith ryngwladol.Er hynny, mae'n werth nodi bod pryderon wedi'u codi mewn sylwebaeth gyfreithiol ynghylch hygrededd amddiffyniad o'r fath. Rydym yn cymryd cydymffurfio â chyfraith ryngwladol o ddifrif ac mae angen dadansoddiad manwl pellach o'r Bil er mwyn deall ei oblygiadau'n well.

Rwy'n bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd cyn gynted ag y bydd gennym ddarlun clir o ganlyniadau'r ddeddfwriaeth arfaethedig o ran datganoli. Fodd bynnag, bydd hyn y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos o dan Reol Sefydlog 29.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn i'r Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy